# Bod yn ddoeth gyda dŵr

Does dim dŵr newydd yn y byd – rydyn ni'n defnyddio'r un dŵr â'r deinosoriaid. Defnyddiwch gymaint o ddŵr ag y mae arnoch ei angen ond peidiwch â'i wastraffu!


Dyma syniadau sut i arbed dŵr...



Golchwch lwyth llawn yn y peiriant golchi. Mae llwyth llawn o ddillad yn defnyddio llai o ddŵr na dau hanner llwyth.



Mae'n well defnyddio can dŵr na phibell ddyfrhau. Casglwch ddŵr glaw mewn casgen i'w ddefnyddio wedyn.



Os defnyddiwch fag hipo yn seston y toiled, byddwch yn arbed 3 litr bob tro y byddwch yn tynnu'r dŵr.

Golchwch lysiau mewn dysgl ac nid o dan dap sy'n rhedeg.

Gallech wastraffu 18 litr o ddŵr trwy adael i'r tap redeg wrth frwsio'ch dannedd.



Peidiwch â rhoi mwy o ddŵr nag y mae arnoch ei angen yn y tegell.

Ewch i'r gawod yn lle'r bath. Gall bath ddefnyddio 80 litr. Dim ond 35 litr y mae cawod 5 munud yn ei ddefnyddio.